LEG-05-2003(min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 25 Chwefror 2003 |
| **Amser:** | 9:30 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Huw Lewis | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Jonathan Morgan | (Ceidwadwr) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Corinne Leavy | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Rosemary Butler, Tom Middlehurst

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-04-2003 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2003.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau i Glerc y Pwyllgor Dethol ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoliadol, sef Christine Salmon, ofyn i Glerc y Cynulliad, sef Paul Silk, am gymorth i drefnu ymweliad astudio â Chynulliad Cenedlaethol Cymru iddi. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Dethol ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoliadol yn ystyried pwerau dirprwyedig ymhob mesur cyhoeddus, a chyflwynodd adroddiad ar b'un a yw'r ddirprwyaeth yn briodol a ph'un a oedd lefel y rheolaeth Seneddol yn ddigonol (o ran offerynnau y deliwyd â hwy yn San Steffan). At hynny, dywedodd y Cadeirydd fod datganoli wedi ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor ystyried pwerau a ddirprwyir i

Weinidogion, ynghyd â phwerau a ddirprwyir i'r Cynulliad. At hynny, dywedodd y Cadeirydd yr hoffai Christine Salmon ddysgu sut yr oedd y Cynulliad yn delio â deddfwriaeth ddirprwyedig a wneir o dan ddeddfwriaeth sylfaenol San Steffan, er mwyn cynorthwyo ei Phwyllgor i roi sylwadau ynglŷn â phwerau dirprwyedig a fyddai'n effeithio ar Gymru.

2.2 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau fod Christine yn awyddus iawn i gwrdd ag Aelodau a Swyddogion y Pwyllgor Deddfau ac arsylwi gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer delio â'r offerynnau hyn. Dywedodd y Cadeirydd y byddai hyn yn ei galluogi i lywio trafodaethau ei phwyllgor ar faterion Cymreig. Byddai hefyd yn sôn yn gryno wrth y Pwyllgor Deddfau am ei Phwyllgor ac yn ateb unrhyw gwestiynau a allai godi. Awgrymodd y Cadeirydd wahodd Christine i fynychu cyfarfod o'n Pwyllgor.
**GWEITHREDU: Clerc**

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC627 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003**

3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau ychwaith.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC627 (Adroddiad).

**LC628 – Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003**

3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol gyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC628 (Adroddiad).

**LC629 – Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2003**

3.7 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau ychwaith.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC629 (Adroddiad).

**LC630 – Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2003**

3.10 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.11 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wallau drafftio ymddangosiadol sy'n ymwneud â'r pwerau a enwir, Rheoliadau 1(2) a 2(5) a Rheoliad 2(1). Gellid eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

3.12 Gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.13 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC630 (Adroddiad).

**LC631 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2003**

3.14 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.15 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.16 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC631 (Adroddiad).

**LC632 – Gorchymyn Treth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2003**

3.17 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.18 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol gyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.19 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC632 (Adroddiad).

**LC633 – Gorchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003**

3.20 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.21 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.22 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC633 (Adroddiad).

**LC608A – Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 11) (Cymru) 2003**

3.23 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.24 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.25 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC608A (Adroddiad).

**LC634 – Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gofal Iechyd Powys (Diddymu) 2003**

3.26 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.27 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.28 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC634 (Adroddiad).

**LC635 – Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod) (Diwygio) (Cymru) 2003**

3.29 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.30 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.31 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC635 (Adroddiad).

**LC636 – Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2003**

3.32 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.33 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.34 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC636 (Adroddiad).

**LC637 – Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2003**

3.35 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.36 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wall ddrafftio ymddangosiadol sy'n ymwneud ag erthygl 9.

3.37 Mynegodd yr Aelodau eu hanfodlonrwydd gyda'r awgrym, yn y cyfamser, y gellir rhoi ystyr i'r ddarpariaeth dan sylw ar y sail fod y gofynion yn erthyglau 8(4), (5) a 15 o Orchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Lloegr) 2000 yn union yr un peth â'r rhai hynny sy'n weithredol yng Nghymru. Ym marn y Pwyllgor, roedd yn annerbyniol bod rhaid cyfeirio at y darn cyfatebol o ddeddfwriaeth yn ymwneud â Lloegr er mwyn deall yr Offeryn Statudol yn gywir yng Nghymru. Penderfynwyd y dylai adroddiad y Pwyllgor nodi y dylid cywiro'r gwall heb oedi. **GWEITHREDU: Ymgynghorydd Cyfreithiol**

**LC638 – Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2003**

3.38 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.39 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.40 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC638 (Adroddiad).

**LC639 – Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Apelau yn erbyn Gwaharddiadau Parhaol) (Cymru) 2003**

3.41 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.42 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.43 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC639 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

4.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 4 Mawrth 2003.